

Asesiad Strwythuredig 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3311A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	4
Argymhellion	5
Adroddiad manwl	
Trefniadau cynllunio strategol	8
Trefniadau llywodraethu	12
Rheoli adnoddau ariannol	22
Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad ac asedau ffisegol eraill	25
Atodiadau	
Atodiad 1 – Dull archwilio	30

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2022 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 2 Cynhaliwyd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan barhaodd cyrff y GIG i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r nifer sylweddol o bobl a oedd yn aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol fod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel, ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.
- 3 Prif ganolbwynt y gwaith fu ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar drefniadau cynllunio strategol y sefydliad; trefniadau llywodraethu; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill. Mae'r dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'i grynhoi yn **Atodiad 1**.
- 4 Rydym hefyd wedi darparu diweddariadau ar gynnydd o'i gymharu ag argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

Negeseuon allweddol

- 5 Yn gyffredinol, canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da ar waith ar y cyfan ond mae lle i'r Bwrdd Iechyd wella'r trefniadau hyn ymhellach trwy sicrhau bod strwythurau, prosesau ac adnoddau llywodraethu allweddol yn cyd-fynd yn llawn ag amcanion a risgiau strategol.**
- 6 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor, ond mae hon wedi dyddio. Mae angen mwy o eglurder ar draws holl strategaethau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau y ceir goruchwyliaeth o'r rhain. Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2025, ac a ddatblygwyd gydag ymgysylltiad da gan y Bwrdd. Mae trefniadau da hefyd ar waith ar gyfer datblygu cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill a monitro'r broses o gyflawni'r CTCI. Fodd bynnag, mae angen gwella'r gwaith o oruchwyllo cynlluniau sy'n cefnogi'r Cynllun

Gwasanaethau Clinigol ac mae angen i effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fod yn faes y canolbwyntir arno.

- 7 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) yn parhau i esblygu, ac mae systemau sicrwydd yn gwella. Ond mae angen tynhau ffynonellau sicrwydd ac alinio'r fframwaith â'r strategaeth hirdymor wedi'i hadnewyddu. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda ar y cyfan; Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder cyhoeddus, a chryfhau adborth staff a chleifion. Mae angen i strwythur y pwyllgor alinio â'r FfSB, ac mae angen sefydlu prosesau hunan-adolygu. Ar hyn o bryd mae Tîm Gweithredol sefydlog, ond mae cryn wendid o hyd yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys.
- 8 Methodd y Bwrdd lechyd â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22 a bydd hefyd yn methu â chyflawni rhai ohonynt yn 2022-23, er iddo ragweld sefyllfa o fantoli'r gyllideb. Mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r arbedion gofynnol, ond mae pwysau costau a chyfalaf dewisol yn her. Mae diffygion ariannol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd yn golygu na fydd y Bwrdd lechyd yn mantoli'r gyllideb dros y cyfnod tair blynedd 2020-23. Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ariannol, ac mae trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar y sefyllfa ariannol yn gadarn.
- 9 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau digonol ar waith i gefnogi a goruchwyllo llesiant staff ond nid yw'n ceisio barn staff yn systematig. Mae'r Bwrdd lechyd yn blaenoriaethu trawsnewid digidol ond nid oes ganddo'r adnoddau i weithredu ei uchelgeisiau yn llawn. Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau gweithredol da ar gyfer rheoli ystadau ac asedau ffisegol, ond nid yw'r materion hyn yn weladwy o fewn strwythur y pwyllgor ar hyn o bryd.

Argymhellion

- 10 Ceir manylion yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i'r argymhellion hyn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 2** pan fydd wedi'i gwblhau.

Arddangosyn 1: argymhellion 2022

Diweddarau cynllunio strategol

- A1 Nid yw strategaeth hirdymor y Bwrdd lechyd wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r newid ffiniau yn 2019, ei flaenoriaethau strategol newydd, a'r strategaeth iechyd poblogaeth sy'n datblygu ymhlith eraill. Dylai'r Bwrdd lechyd:
 - a) ailystyried a phenderfynu ar ddyfodol strategaeth 2019, o ran a oes angen diweddarau neu ddisodli hon:
 - b) sicrhau bod map clir o strategaethau'r Bwrdd lechyd presennol i sicrhau eglurder ac aliniad a monitro a chraffu effeithiol.

- A2 Gallai adrodd ar gynnydd o'i gymharu â'r cynlluniau clinigol a chorfforaethol sy'n cefnogi'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol gael ei wella ar bob lefel. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o adrodd i'r Bwrdd Rheoli er mwyn gallu tracio cynnydd ar draws pob cynllun yn rhwydd.

Gwella systemau sicrwydd ymhellach

- A3 Er bod yr FfSB wedi gwella, mae cyfleoedd yn bodoli i'w ddatblygu a'i wella ymhellach. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly, sicrhau bod prif risgiau'r FfSB yn adlewyrchu'r strategaeth hirdymor, yn ogystal â sicrhau bod rheolaethau, sicrwydd a mesurau lliniaru yn gynhwysfawr ac yn gadarn. Dylai hyn gynnwys sicrwydd yn ymwneud ag ystadau.
- A4 Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am risg sy'n gysylltiedig â chyffuriau a reolir. Gan fod y Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gael sicrwydd ar brosesau rheoli risg y Bwrdd Iechyd, ni ddylai fod yn gyfrifol am unrhyw risgiau. Dylai'r Bwrdd Iechyd ail-leoli'r risg hon i bwyllgor gwahanol a sicrhau nad oes unrhyw risgiau pellach yn cael eu dyrannu i'r Pwyllgor Archwilio.
- A5 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig wedi gwella ond mae cyfleoedd yn bodoli i'w wella ymhellach. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly, edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio atebion digidol i gyflwyno'r adroddiad yn ogystal â chynnwys data cymharol ar gyfer cyrff eraill y GIG ar draws Cymru.
- A6 Mae'r broses ar gyfer gwneud newidiadau i amserlenni ar gyfer cwblhau argymhellion archwilio yn aneglur. Hefyd, nid yw'r argymhellion a wneir gan sefydliadau gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gyflawni yn cael eu tracio ychwaith ac nid ydynt yn destun craffu gan y pwyllgor priodol ac nid ydynt yn cael eu cynnwys ar y traciwr argymhellion archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly:
- a) sefydlu proses glir ar gyfer adolygu a chymeradwyo newidiadau a wneir i ddyddiadau gweithredu argymhellion archwilio;
 - b) sicrhau monitro a chraffu ar gynnydd priodol wrth fynd i'r afael â chymau gweithredu sy'n ymwneud ag argymhellion gan gyrff arolygu ac adolygu allanol eraill.

Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor

- A7 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder busnes y Bwrdd a'r pwyllgor ymhellach. Dylai'r Bwrdd lechyd, felly:
- a) sicrhau bod rhywfaint o wybodaeth gwrth-dwyll, os nad y cwbl, yn cael ei hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio cyhoeddus;
 - b) sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau ar y wefan gyhoeddus, yn ogystal â strategaethau allweddol yn gyfredol ac yn hygyrch. Wrth wneud hynny, dylid dileu dogfennau hŷn er mwyn osgoi dryswch;
 - c) cyhoeddi'r Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion a Lletygarwch fel dogfen benodol ar y wefan gyhoeddus;
 - d) sicrhau bod cofnodion o gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau sydd wedi'u cadarnhau yn cael eu lanlwytho i'r wefan gyhoeddus mewn modd amserol;
 - e) sicrhau bod cofnodi gweithredoedd y Cadeirydd yn ffurfiol yn cynnwys mwy o fanylion am gostau neu oblygiadau ehangach o ran adnoddau, yn enwedig os yw'r weithred yn berthnasol ei natur.
- A8 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor, yn ogystal â sicrhau effaith gryfaf yr FfSB. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:
- a) defnyddio'r FfSB diwygiedig i lywio dyluniad strwythur y pwyllgor i gydfynd â risgiau strategol y sefydliad;
 - b) cryfhau'r cyflwyniad a'r wybodaeth a gynhwysir gyda'r Adroddiad Ansawdd a Diogelwch a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;
 - c) cyflwyno rhaglen ffurfiol o adolygiadau effeithiolrwydd pwyllgor.

Recriwtio i swyddi allweddol

- A9 Mae yna gryn wendid o hyd yn yr uwch dîm arwain yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd geisio penodi nifer sylweddol i swyddi o fewn tîm triwriaeth y Grŵp Gwasanaethau ac ar y lefel oddi tanodd.

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol

- 11 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau cynllunio'r sefydliad:
- gweledigaeth ac amcanion strategol;
 - cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI);
 - trefniadau cynllunio;
 - trefniadau ar gyfer gweithredu a monitro'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 12 Canfuom, **er bod cymeradwyaeth CTCI y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-2025 yn gadarnhaol, mae angen iddo ailedrych ar ei strategaeth hirdymor. Mae cynllunio yn parhau i fod yn gryfder, ond gallai monitro ac adrodd ar gyflawni cynlluniau fod yn fwy craff.**

Gweledigaeth ac amcanion strategol

- 13 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor ar waith ar gyfer y sefydliad. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
 - pa un a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd;
 - pa un a yw'r strategaeth hirdymor yn seiliedig ar strategaeth glinigol hirdymor briodol.
- 14 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor, ond mae angen ailedrych ar hon i adlewyrchu newidiadau i'w flaenoriaethau strategol, y strategaeth iechyd y boblogaeth sy'n datblygu, a'r newidiadau i ffiniau yn 2019.**
- 15 Mae strategaeth hirdymor bresennol y Bwrdd Iechyd 'Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell' yn cyfeirio at y sefydliad rhagflaenol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg¹. Felly, mae'r strategaeth hon wedi dyddio ac mae angen gwneud penderfyniad ynghylch ei dyfodol. **(Argymhelliad 1a)**. Ym mis Gorffennaf 2021, adolygodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion strategol, a nododd y rhain yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2022-2025 (CTCI). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn datblygu strategaeth iechyd y boblogaeth, a oedd fod i

¹ Ar 1 Ebrill 2019, newidiodd y Bwrdd Iechyd ei enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau ar gyfer pobl ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

gael ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2022. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar strategaeth ystadau, a strategaeth gweithlu.

- 16 Yn 2019, lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol pum mlynedd hefyd. I ddechrau, roedd hwn yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau clinigol, y mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ei chyflawni ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn nodi uchelgais i greu canolfannau rhagoriaeth, yn ogystal â hyrwyddo iechyd a llesiant. Ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adnewyddu ei amcanion llesiant, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn cael ei ystyried yn gyfrwng i gyflawni'r rhain. Fodd bynnag, mae'n anodd mapio'r holl strategaethau hyn gyda'i gilydd ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau eglurder ar draws trefniadaeth yr holl strategaethau presennol, a sicrhau bod y rhain yn cael eu halinio. **(Argymhelliad 1b)**

Y Cynllun Tymor Canolig Integredig

- 17 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio CTCI cymeradwy ar gyfer 2022-2025. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a gyflwynwyd y CTCI o fewn y fframiau amseri gofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
 - pa un a gafodd y fersiynau drafft a therfynol y CTCI eu trafod, eu herio a'u cytuno gan y Bwrdd cyn eu cyflwyno;
 - pa un a dderbyniodd y CTCI gymeradwyaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 18 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd CTCI cymeradwy, a ddatblygwyd gydag ymgysylltiad da'r Bwrdd.**
- 19 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio CTCI a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf ers 2015-16. Cafodd y drafft cychwynnol ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022, a'i ddiweddarau yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022 y byddai'r Bwrdd Iechyd yn derbyn £24.4 miliwn ychwanegol. Derbyniwyd yr arian cylchol hwn fel addasiad poblogaeth, gan alluogi'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu cynllun cytbwys yn ariannol. Mae'r CTCI wedi'i osod yng nghyd-destun y Cynllun Gwasanaethau Clinigol ac fe'i gelwir yn 'Gynllun Adfer a Chynaliadwyedd' gan y Bwrdd Iechyd.
- 20 Roedd cyfranogiad da gan y Bwrdd yn natblygiad y CTCI. Trafodwyd fersiynau drafft mewn sawl sesiwn datblygu'r Bwrdd, a sefydlwyd gweithgor i roi sicrwydd a goruchwyliaeth o'i ddatblygiad. Cadeiriwyd y grŵp gan y Prif Weithredwr ac roedd yn cynnwys Aelodau Annibynnol. Roedd Aelodau Annibynnol yn canmol proses y Bwrdd Iechyd. Cyflwynwyd y CTCI i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlenni gofynnol a chafodd gymeradwyaeth y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2022.

Trefniadau cynllunio

- 21 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a ddatblygwyd strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol;
 - pa un a yw egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol;
 - pa un a yw'r trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn effeithiol ac yn effeithlon, ac yn cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 22 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd drefniadau da ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gyda thystiolaeth o ymgysylltiad da â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae angen i effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fod yn faes y dylid canolbwyntio arno.**
- 23 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau da ar waith i oruchwyllo datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Mae cefnogi'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn cynnwys nifer o gynlluniau a strategaethau clinigol a chorfforaethol, megis y Cynllun Gwasanaethau Mamolaeth, a'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae'r CTCI hefyd yn cael ei gefnogi gan nifer o gynlluniau cyflawni sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion penodol, er enghraifft, yr ôl-groniad gofal a gynlluniwyd, perfformiad canser, a gofal brys ac argyfwng.
- 24 Mae gan y Bwrdd lechyd Grŵp Llywio Gweithredol y CTCI, a Grŵp Cynllunio Integredig sy'n cefnogi'r gwaith o baratoi'r CTCI ac yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ategol. Mae partneriaid busnes yn parhau i gefnogi timau a grwpiau gweithredol, ac mae amryw o grwpiau cynllunio gweithredol wedi'u sefydlu. Y flwyddyn nesaf, bydd pob Grŵp Gwasanaeth² yn datblygu ei CTCI ei hun. Bydd hyn yn cryfhau'r broses ymhellach ac yn gwella perchnogaeth ar gyfer datblygu a chyflawni ar lefel leol.
- 25 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynlluniau clinigol a chyflawni sy'n sail i'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r CTCI wedi bod yn gryf. Roedd gan bob un o'r cynlluniau ar draws y system ymgysylltiad clinigol. Ym mis Gorffennaf 2021, lansiodd y Bwrdd lechyd, mewn partneriaeth â Chyngor lechyd Cymuned Bae Abertawe, ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr ar gyfer cleifion, y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid ar gynigion manwl i newid gwasanaethau a ddatblygwyd gan glinigwyr ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae cynlluniau hefyd ar waith i gynnal digwyddiad rhanddeiliaid ar iechyd y boblogaeth. Nod hwn yw cymhwyso lens iechyd y boblogaeth i ddisgrifio'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau ac ymgorffori

² Mae gan y Bwrdd lechyd bedwar Grŵp Gwasanaeth - Treforys; Singleton a Chastell-nedd Port Talbot; Gofal Sylfaenol a'r Gymuned; ac lechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu.

egwyddorion iechyd y boblogaeth mewn gwaith bob dydd. Bydd y gwaith hwn yn llywio datblygiad CTCI 2023-2026.

- 26 Mae gofal iechyd seiliedig ar werth (VBH) yn cynnwys cynlluniau a strategaethau corfforaethol. Mae gan CTCI 2022-2025 bwyslais ar wella llwybrau mewn diabetes, methiant y galon, ffibriliad atrïaidd, pwysedd gwaed uchel a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae'r llwybrau hyn yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn treialu fframwaith effeithlonrwydd newydd a ddatblygwyd gan yr Uned Cyflawni Ariannol, yn ogystal â gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gefnogi datblygiad academi VBH, gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru.
- 27 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen i effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fod yn faes y dylid canolbwyntio arno. Ym mis Hydref 2022 roedd ein gwaith ar y trefniadau ar gyfer goruchwyllo a rheoli'r cytundebau contractiol a sefydlwyd yn dilyn ail-alinio Ffiniau'r Bwrdd Iechyd yn amlygu diffyg cyflymder gan y Bwrdd Iechyd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, wrth dadgyfuno gwasanaethau yn dilyn trosglwyddiad Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019. Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol ac Oedolion a gomisiynwyd ym mis Rhagfyr 2021 sicrwydd cyfyngedig, gan amlygu diffyg cytundeb lefel gwasanaeth neu fanyleb gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau, a diffyg sicrwydd ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei dderbyn gan y Bwrdd Iechyd.

Trefniadau gweithredu a monitro

- 28 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwyllo ac yn herio gweithredu a chyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol a chraffu arnynt. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau a chanlyniadau clir sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd;
 - pa un a yw'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 29 Canfuom fod **trefniadau da ar gyfer monitro'r broses o gyflawni'r CTCI ond mae angen gwella'r gwaith o oruchwyllo cynlluniau sy'n cefnogi'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.**
- 30 Mae gan CTCI 2022-2025 fesurau a chymau gweithredu clir. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fireinio'r rhain ymhellach a sicrhau bod mesurau canlyniadau clir a llinellau sylfaen ar waith i gefnogi monitro. Lle mae targedau cyflawnadwy a chanlyniadau wedi'u nodi, mae'r rhain mewn fformat blynyddol, wedi'u rhannu'n chwarteri.
- 31 Mae yna strwythur adrodd a llywodraethu gweithredol clir ar waith ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r CTCI. Yn sail i'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol mae naw Bwrdd Rhaglen sy'n adrodd i'r Bwrdd Rheoli. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu harwain gan swyddogion gweithredol, ac yn tracio

cynnydd o'i gymharu â'r fethodoleg 'Nodau, Dulliau a Chanlyniadau' y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i chymhwyso i'w CTCl. Fodd bynnag, mae adroddiadau i'r Bwrdd Rheoli yn draethiadol iawn (**Argymhelliad 2a**).

- 32 Mae trefniadau da ar gyfer monitro'r broses o gyflawni'r CTCl ar lefel Bwrdd a phwyllgor, ond mae'r cynnydd o'i gymharu â'r cynlluniau clinigol a chorfforaethol yn llai amlwg. Ceir diweddariadau chwarterol cynhwysfawr ar gyflawni'r CTCl i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, y mae'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn elfen allweddol ohono. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau cyflawni a grybwyllir ym mharagraff 23 er mwyn gallu tracio perfformiad. Mae cynnydd o ran gweithredu'r cynlluniau sylfaenol sy'n cefnogi'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn cael ei fonitro ar ddull sy'n seiliedig ar risg, ac eithrio'r Rhaglen Ailgynllunio Gwasanaethau Meddygol Acíwt, a adroddwyd i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Trefniadau llywodraethu

- 33 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gyda phwyslais penodol ar y canlynol:
- systemau sicrwydd allweddol;
 - effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor;
 - i ba raddau y mae dylunio sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da.
- 34 Darperir manylion y cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn **Arddangosyn 2**.
- 35 Canfuom fod **trefniadau llywodraethu yn effeithiol ar y cyfan, gyda thrafodaethau agored a thryloyw. Fodd bynnag, mae angen mireinio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) ymhellach i gryfhau ffynonellau sicrwydd a sicrhau bod pwyllgorau'n darparu goruchwyliaeth briodol o risgiau i gyflawni'r strategaeth hirdymor.**

Systemau sicrwydd

- 36 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn goruchwyllo ac yn herio risgiau sefydliadol, perfformiad ac ansawdd gwasanaethau ac yn craffu arnynt. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a oes FfSB effeithiol ar waith, sy'n cael ei adolygu a'i berchenogi gan y Bwrdd;
 - pa un a yw'r FfSB yn cael ei gynnal gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; goruchwyllo ansawdd a diogelwch gwasanaethau; trin gwybodaeth mewn modd diogel;
 - pa un a gymerir camau effeithiol i ymdrin â chanfyddiadau ac argymhellion gwaith archwilio ac adolygu.

- 37 Canfuom, **er bod yr FfSB yn parhau i esblygu, a systemau sicrwydd yn gwella, mae angen tynhau rhai ffynonellau sicrwydd ac alinio'r FfSB â'r strategaeth hirdymor wedi'i hadnewyddu.**
- 38 Mae'r Bwrdd lechyd wedi diwygio ei FfSB, ond gellid ei wella ymhellach. Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r FfSB sicrwydd cyfyngedig oherwydd pryderon ynghylch strwythur y ddogfen, ei hyd, camau gweithredu sydd wedi dod i ben, a diffyg adolygiad gan bwyllgorau'r meysydd risg penodedig. Mae'r FfSB wedi'i ddiwygio ers hynny, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i diweddarau i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r FfSB newydd yn fyrrach ac yn nodi'r prif risgiau i gyflawni amcanion CTCI 2022-2025, ond mae angen mwy o newidiadau i'w wella ymhellach. Er bod y fersiwn a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Medi 2022 wedi gweld gwelliant yn y prif ddisgrifiadau o risg, nid oedd unrhyw debygolrwydd, effaith, na sgorio risg cyffredinol. Roedd bylchau hefyd mewn rheolaethau, sicrwydd a mesurau lliniaru, megis ar gyfer y risg i ofal sylfaenol, ac roedd rhai ffynonellau sicrwydd wedi dyddio'n sylweddol neu'n rhoi sicrwydd cyfyngedig. Wrth adnewyddu ei strategaeth hirdymor, dylai'r Bwrdd lechyd fynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac alinio'r FfSB â'r prif risgiau sy'n effeithio ar gyflawni ei strategaeth (**Argymhelliad 3**).
- 39 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau da ar gyfer rheoli risg. Fe wnaeth y Bwrdd lechyd adnewyddu ei strategaeth rheoli risg yn 2021 a bydd yn ei diweddarau ymhellach yn dilyn adolygiad diweddar y Bwrdd o'i barodrwydd i dderbyn risg. Mae'r broses ar gyfer datblygu Cofrestr Risg Gorfforaethol y Bwrdd lechyd (CRR) yn gadarn, gyda Phanel Craffu ar Risg ar waith i gymedroli risgiau newydd a gwaeth i'r CRR a'r FfSB, yn ogystal â chynghori ar uwchgyfeirio ac isgyfeirio. Mae hwn wedi ei gryfhau'n ddiweddar trwy gynnwys y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol er nad yw cylch gorchwyl y panel wedi'i ddiweddarau eto.
- 40 Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o reoli risg ym mis Chwefror 2022 sicrwydd rhesymol er bod angen cryfhau rhai materion gweithredol ac adrodd o hyd. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghysonderau mewn cofrestrau risg Grŵp Gwasanaeth. Mae'r holl risgiau yn cael eu haseinio i bwyllgorau perthnasol ar gyfer eu goruchwyllo. Ar adeg ein gwaith ni roedd y Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am bum risg ddigidol ac un risg yn ymwneud â chyffuriau a reolir. Gan fod y Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gael sicrwydd ar drefniadau rheoli risg sefydliadol, ni ddylai fod yn gyfrifol am unrhyw risgiau (**Argymhelliad 4**).
- 41 Mae trefniadau da ar gyfer monitro perfformiad, ond mae perfformiad y Bwrdd lechyd yn parhau i fod yn her, fel gydag eraill ledled Cymru. Ym mis Medi 2022:
- er gwaethaf y gostyngiad mewn derbyniadau adrannau brys, roedd y perfformiad o'i gymharu â'r targed aros pedair awr yn is na'r targed o 72.7%;
 - roedd nifer y cleifion yn aros dros 26 wythnos (a 52 wythnos) am apwyntiad claf allanol cyntaf yn dal i fod yn her, yn enwedig mewn orthopaedeg, offthalmoleg, ac adran y glust, y trwyn a'r gwddf (ENT);
 - roedd perfformiad ar y llwybr canser sengl ar 55% ymhell islaw trywydd y Bwrdd lechyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru;

- o ran diagnosteg, roedd gwasanaethau endosgopi yn peri pryder o ran perfformiad gyda nifer sylweddol o gleifion yn aros dros wyth wythnos.
- 42 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig (IPR) yn parhau i ddarparu trosolwg o berfformiad y Bwrdd lechyd o'i gymharu â mesurau cyflawni cenedlaethol, blaenoriaethau gweinidogol, a mesurau ansawdd a diogelwch lleol allweddol. Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn craffu ar yr adroddiad cyn cyfarfod y Bwrdd a chyflwynir crynodeb da o'r wybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Pherrfformiad. Gwnaed newidiadau cadarnhaol i'r IPR, gyda mwy o wybodaeth am gamau gweithredu yn cael eu cymryd mewn ymateb i bryderon am berfformiad, a thrywyddau'n cael eu cynnwys. Ond mae cyfle o hyd i edrych ar atebion digidol i wneud yr adroddiad yn rhyngweithiol, ac mae diffyg data meincnodi yn ei gwneud hi'n heriol nodi meysydd lle mae perfformiad yn wael. **(Argymhelliad 5).**
- 43 Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a gyflwynwyd yn 2021 yn nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad Grwpiau Gwasanaeth a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol. Mae'r fframwaith hwn yn nodi cyfres o lefelau uwchgyfeirio sy'n amrywio o ymreolaeth a enillwyd i fesurau arbennig, gan adlewyrchu i ba raddau y mae angen cymorth priodol i adfer perfformiad. Fel gyda Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau eraill ledled Cymru mae pwysau sylweddol ar wasanaethau. Ar adeg ein gwaith ni roedd Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys a gwasanaethau canser yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Singleton wedi'u huwchgyfeirio o hyd, fel yr oeddent yn wir pan wnaethom gwblhau ein gwaith asesu strwythuredig yn 2021.
- 44 Mae'r Bwrdd lechyd yn gwella ei drefniadau llywodraethu ansawdd. Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethom gwblhau adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd lechyd³. Er gwaethaf sawl cryfder, gwelsom wendidau sylweddol mewn trefniadau corfforaethol a gweithredol a oedd yn cyfyngu gallu'r Bwrdd lechyd i wybod a oedd y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn ddiogel ac yn effeithiol. Ers hynny, mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu cynllun gwella clir, gyda gwelliannau'n cael eu harwain gan y Prif Weithredwr yn ogystal â'r Gweithredwyr Clinigol. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys datblygu Cynllun Archwilio Clinigol newydd, yn ogystal â newidiadau i strwythurau llywodraethu ategol o dan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Darperir gwaith craffu gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a'r Bwrdd Rheoli. Byddwn yn adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd gweithredol ar draws y Grwpiau Gwasanaeth yn 2023.
- 45 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau da ar gyfer rhoi sicrwydd ar lywodraethu a diogelwch gwybodaeth, ond mae gallu'r pwyllgor perthnasol i graffu ar yr wybodaeth yn peri pryder. Mae Polisi Seiberddiogelwch wedi'i gymeradwyo yn gyfredol, sy'n nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Tîm Seiberddiogelwch. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi mabwysiadu Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru gyfan, er nad yw wedi ei deilwra i adlewyrchu cysylltiadau lleol sy'n cyflawni'r

³ Archwilio Cymru, [Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe – Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd, Medi 2022](#)

swyddogaethau statudol. Mae yna gydymffurfiad da â hyfforddiant gorfodol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth sy'n sefyll ar 82%, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymdrechu i gyrraedd ei darged o 95%. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2023 nodwyd pryderon gan Archwilio Mewnol mewn cysylltiad â llywodraethu gwybodaeth, roedd y rhain yn cynnwys diffyg adnoddau staff, problemau gyda pholisïau, problemau gydag adrodd am risg llywodraethu gwybodaeth a diffyg mesurau perfformiad llawn. Rydym yn ymwybodol o gynlluniau i symud y gwaith craffu ar ddigidol i Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Cyn hyn, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariadau gan gynnwys adroddiad arferol ar y prif bwyntiau gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. Derbyniodd y Bwrdd hefyd friff seiberddiogelwch manwl ym mis Hydref 2021, a oedd yn tynnu sylw at drefniadau seiberddiogelwch y sefydliad.

- 46 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ar gyfer tracio cynnydd wrth weithredu argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae'r traciwr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio bellach yn cynnwys mwy o fanylion yn ymwneud ag argymhellion archwilio unigol. Ym mis Chwefror 2023 adolygodd y tîm Gweithredol yr holl argymhellion archwilio a oedd yn weddill a neilltuwyd iddynt, a'r cynllun yn y dyfodol yw i'r Tîm Gweithredol dderbyn y traciwr archwilio yn fisol i sicrhau bod cynnydd wrth ymdrin â'r argymhellion sy'n weddill. Mae nifer o newidiadau i amserlenni gweithredu ar y traciwr wedi'u gwneud. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2022 nid oedd unrhyw argymhellion Archwilio Cymru yn weddill, ond dylai fod saith wedi bod yn ôl yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd gan y Bwrdd Iechyd. Mae darlun tebyg ar gyfer Archwilio Mewnol, gyda dyddiadau gweithredu diwygiedig yn lleihau nifer y camau gweithredu hwyr o 102 i 42. Mae'r broses gymeradwyo ar gyfer adolygu'r amserlenni hyn yn aneglur (**Argymhelliad 6a**). Nid oes llawer o oruchwyliaeth o argymhellion gan sefydliadau eraill ychwaith, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Uned Gyflawni (**Argymhelliad 6b**).

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor

- 47 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn cefnogi llywodraethu da. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
 - pa un a gynhelir cyfarfodydd yn briodol gan Gynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chofrestrau Buddiannau clir;
 - pa un a oes strwythur pwyllgor priodol sy'n gweithredu'n dda o dan y Bwrdd;
 - pa un a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn derbyn yr wybodaeth gywir, gan gynnwys barn staff a defnyddwyr gwasanaethau;
 - pa un a oes gan y Bwrdd a'i bwyllgorau dystiolaeth o hunan-adolygiad digonol.

- 48 Canfuom fod y **Bwrdd a'i bwyllgorau yn gyffredinol yn gweithredu'n dda. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder cyhoeddus ymhellach, cryfhau adborth staff a chleifion, alinio strwythur y pwyllgor â'r FfSB, a gwella prosesau hunan-adolygu.**
- 49 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder cyhoeddus. Mae'r Bwrdd wedi parhau i gwrdd yn rhithwir, gan ddarledu ei gyfarfodydd yn fyw trwy YouTube, gyda dolenni i recordiadau ar gael ar ei wefan. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu ffrydio'n fyw na'u recordio. Mae'r Bwrdd yn dechrau dychwelyd i gyfarfod wyneb yn wyneb gan ddefnyddio fformat hybrid, gyda'r cyfarfod cyntaf o'i fath wedi ei gynnal ym mis Medi 2022. Caiff cyfarfodydd eu hyrwyddo drwy'r wefan ac mae papurau ar gael saith diwrnod ymlaen llaw. Ar y cyfan, mae cydbwysedd da o faterion yn cael eu trafod yn gyhoeddus, a gwnaethom arsylwi trafodaethau agored a gonest.
- 50 Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder ymhellach. Dylid trafod rhywfaint o wybodaeth gwrth-dwyll os nad y cwbl yn sesiwn gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio, yn unol â chyrff eraill y GIG (**Argymhelliad 7a**). Mae byrddau iechyd eraill hefyd yn cyhoeddi agendâu cyfarfodydd preifat i gynorthwyo tryloywder. Y llynedd, argymhellwyd y dylid mynd i'r afael â materion yn ymwneud â llywio'r drwy wefan. Er ein bod wedi gweld gwelliannau, mae'n anodd dod o hyd i sawl dogfen allweddol o hyd, megis CTCI 2022-2025, ac mae rhai dogfennau wedi dyddio'n sylweddol, gan gynnwys polisiâu allweddol (**Argymhelliad 7b**).
- 51 Mae trefniadau'r Bwrdd lechyd yn cefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgor. Mae'r Rheolau Sefydlog, Cynlluniau Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn gyfredol ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae cyfarfodydd yn dilyn prosesau llywodraethu yn gyson gan gynnwys cofnodi ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant ac adolygu cofnodion gweithredu. Gallai'r Bwrdd lechyd, fodd bynnag, wella tryloywder ei ddatganiadau buddiant trwy lanlwytho'r cofrestrau perthnasol i'r wefan (**Argymhelliad 7c**). Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol mewn cyfarfodydd dilynol, ond gwelsom sawl achos o gofnodion cymeradwy terfynol ar goll ar wefan y Bwrdd lechyd (**Argymhelliad 7d**). Ar ben hynny, mae angen gwell eglurder ar adrodd gweithredoedd y Cadeirydd, er enghraifft, trwy gofnodi'n ffurfiol mewn papurau y costau neu'r goblygiadau ehangach o ran adnoddau, yn enwedig os yw'r weithred yn berthnasol o ran ei natur (**Argymhelliad 7e**).
- 52 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithio'n dda ar y cyfan ond fe ddaethom ni o hyd i fylchau mewn sicrwydd a'r angen i ailedrych ar strwythur y pwyllgor. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau sicrwydd oddi wrth gadeiryddion ei bwyllgorau sy'n rhoi trosolwg o fusnes pwyllgor allweddol ac yn nodi materion ar gyfer uwchgyfeirio. Mae yna atgyfeirio da o faterion rhwng pwyllgorau, er y gellid gwella'r adborth i'r pwyllgor atgyfeirio. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor yn gyfredol, ond mae bylchau yn ymwneud â goruchwyllo ystadau a phartneriaethau, gan gynnwys gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid hefyd bellach yn derbyn gwybodaeth am gynnydd o'i gymharu â'r cynlluniau cyflawni ac mae wedi derbyn diweddariadau ad hoc ar berfformiad ystadau. Mae'r

Bwrdd Iechyd yn bwriadu ystyried y materion hyn fel rhan o'i adolygiad o strwythur y pwyllgor. Wrth gynnal yr adolygiad, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio defnyddio'r FfSB diwygiedig i lunio strwythur y pwyllgor a'r cynlluniau gwaith cysylltiedig (**Argymhelliad 8a**). Efallai y bydd y Bwrdd Iechyd yn dymuno ystyried amllder y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Ar hyn o bryd mae'r ddau yn cwrdd bob mis, o'i gymharu â deufis mewn byrddau Iechyd eraill. Byddai lleihau amllder y cyfarfodydd hyn i bob deufis, yn rhyddhau amser Aelodau Gweithredol ac Annibynnol a byddai hefyd yn rhoi mwy o amser i staff gweithredol ganolbwyntio ar gyflawni a gwneud gwelliannau. Gellir parhau i oruchwylio materion yn fisol trwy amserlennu cyfarfodydd pwyllgorau ar gyfer misoedd gwahanol i fisoedd cyfarfodydd y Bwrdd.

- 53 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn derbyn gwybodaeth o ansawdd da i gefnogi craffu a herio effeithiol. Cyflwynir papurau mewn modd amserol, ac mae ansawdd y papurau a gynhyrchir yn dda; fodd bynnag, gallai rhai fod yn fyrrach. Ym mharagraff 40, rydym yn tynnu sylw at gyfleoedd i wella'r IPR ymhellach, ac mae lle hefyd i wella'r Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Er enghraifft, gallai'r dudalen gyntaf ganolbwyntio'n gryfach ar y materion ansawdd a gynhwysir yn yr adroddiad, a dylai'r broses o gyflwyno'r adroddiad gael ei harwain gan y cyfarwyddwyr gweithredol cyfrifol am ansawdd. (**Argymhelliad 8b**).
- 54 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos ei ymrwymiad i glywed oddi wrth staff a chleifion. Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid⁴ yn parhau i fod yn system i staff godi pryderon. Mae troeon gan y Bwrdd hefyd bellach wedi ailgychwyn gydag Aelodau Annibynnol yn canfod bod y rhain yn ffordd ddefnyddiol o siarad â staff a chael sicrwydd. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gwneud defnydd da o straeon cleifion a straeon staff. Mae Adroddiad Diweddarau Profiad Cleifion yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, er bod aelodau wedi gofyn am welliannau i'r adroddiad i'w alluogi i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac effaith.
- 55 Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd cryf gyda phortffolio amrywiol o sgiliau a phrofiad. Mae'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsiant yn dda. Mae dwy swydd wag Aelod Annibynnol ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu awdurdod cyfreithiol a lleol yn y drefn honno. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi cynghorydd cyfreithiol dros dro am flwyddyn i lenwi'r bwlch. Ar adeg ein gwaith ni, ni chafodd swydd wag yr awdurdod lleol ei llenwi. Bydd swydd wag Aelod Annibynnol ychwanegol yn 2023. Mae'r Bwrdd hefyd wedi parhau â'i raglen ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cael sesiynau wedi'u targedu ar ystod o feysydd gan gynnwys y rhaglen ddigidol, effeithiolrwydd y Bwrdd a'r parodrwydd i dderbyn risg. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn archwilio opsiynau ar gyfer cam nesaf datblygiad y bwrdd.

⁴ Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid yn wasanaeth annibynnol allanol sy'n gweithredu 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn sy'n cynnig ffordd ddiogel, gyfrinachol ac anfeiriadol o godi pryderon yn y gweithle.

56 Mae gan y Bwrdd lechyd broses sefydledig ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd, ond nid oes trefniadau tebyg ar waith ar gyfer pwyllgorau. Mae allbwn yr adolygiad effeithiolrwydd yn bwydo i mewn i gynllun gweithredu, sy'n cael ei fonitro gan y Bwrdd. Mae'r rhan fwyaf o feysydd yn dangos gwelliant. Fodd bynnag, mae atchweliad wedi bod yn y maes gwerthoedd ac ymddygiadau oherwydd COVID-19 sy'n cyfyngu ar allu Aelodau Annibynnol i fod yn weladwy yn ystod troeon. Mae hyn wedi bod yn ganolbwynt i'r Bwrdd yn 2022-23 ynghyd â sicrwydd y Bwrdd, rheoli risg, a llywodraethu ansawdd. Ar adeg ein gwaith ni, nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer asesu effeithiolrwydd pwyllgorau, er y gofynnir i aelodau ddarparu adborth llafar ar ddiwedd pob cyfarfod. Byddai proses adolygu mwy ffurfiol yn cryfhau'r trefniant hwn yn sylweddol (**Argymhelliad 8c**).

Dylunio sefydliadol

- 57 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a yw cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, a bod ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg;
 - pa un a oes eglurder ynghylch swyddogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd, a bod digon o adnoddau ar waith i gefnogi gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau;
 - pa un a yw'r strwythur sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso gweithio system gyfan.
- 58 Canfuom fod **Tîm Gweithredol sefydlog ar hyn o bryd, ond mae Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys yn parhau i fod â gwendidau ac yn ansefydlog.**
- 59 Mae gan y Bwrdd lechyd Dîm Gweithredol sefydlog ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth yn gadael yn 2023, ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu ill dau yn parhau fel trefniadau dros dro. Penodwyd y Cyfarwyddwr Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro i swydd barhaol ym mis Hydref 2022. Bydd angen gwneud trefniadau i sicrhau bod digon o gapasiti yn y Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn dilyn y dyrchafiad mewnol hwn.
- 60 Mae Bwrdd Rheoli'r Bwrdd lechyd yn parhau i oruchwylio ac ysgogi perfformiad gweithredol, ariannol, ansawdd a'r gweithlu. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys y Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr y Grŵp Gwasanaeth ac mae'n cyfarfod bob pythefnos. Ym mis Ebrill 2022, cydnabu'r Bwrdd Rheoli fod agendâu yn mynd yn rhy feichus ac fe luniodd raglen waith i sicrhau bod pob eitem yn cael pwyslais digonol.
- 61 Y llynedd, gwnaethom adrodd bod gan y timau triwriaeth ar lefel y Grŵp Gwasanaeth a'r gyfarwyddiaeth oddi tanodd gymysgedd o staff a benodwyd yn ddiweddar, trefniadau dros dro, a swyddi gwag heb eu llenwi. Mae gwell darlun erbyn hyn gyda phob grŵp gwasanaeth ond un â thriwriaeth barhaol o Gyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Nyrsio wedi'u

sefydlu. Fodd bynnag, mae strwythur Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys yn parhau i fod â gwendidau ac yn ansefydlog. Ar adeg ein gwaith ni, roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth dros dro a Chyfarwyddwr Nyrsio dros dro. O dan y cyfarwyddwyr, roedd y pum Pennaeth Nyrsio mewn swyddogaethau dros dro. Roedd Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyswllt yn rhai dros dro hefyd, ac roedd swyddi gwag ar gyfer Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a dau Gyfarwyddwr Gwasanaeth Cyswllt arall. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 43, mae'r Grŵp Gwasanaeth hwn yn cael ei uwchgyfeirio at Fframwaith Rheoli Perfformiad y Bwrdd lechyd. Mae sicrhau penodiadau parhaol yn y maes hwn yn bwysig er mwyn darparu sefydlogrwydd a gwella perfformiad. **(Argymhelliad 9).**

Arddangosyn 2: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Gwefan y Bwrdd lechyd</p> <p>A1 Mae'n anodd llywio drwy wefan y Bwrdd lechyd i ddod o hyd i recordiadau o gyfarfodydd Bwrdd a gwybodaeth gyfredol y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud gwelliannau i'r broses o lywio drwy'r wefan cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r recordiadau diweddaraf yn rhwydd (2021).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Mae dolen i'r recordiadau ar YouTube bellach ar gael ar y wefan.</p>

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Effeithiolrwydd y Pwyllgor</p> <p>A2 Cynhelir y Pwyllgorau Perfformiad a Chyllid, Ansawdd a Diogelwch ar yr un diwrnod gyda'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cael ei gyflwyno i'r ddau. Mae hyn yn arwain at risgiau o ddyblygu mewn trafodaethau, neu risg i aelodau o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fethu trafodaethau pwysig. Mae angen i'r Bwrdd lechyd ystyried symud y pwyslais cryf ar yr adroddiad perfformiad i brif gyfarfod y Bwrdd, lleihau'r risg o ddyblygu yng nghyfarfodydd y pwyllgor a rhyddhau capasiti er mwyn iddynt gynnal ymchwiliadau trylwyr i feysydd sy'n peri pryder (2021).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl Diwygiedig i'r ddau bwyllgor leihau dyblygu wrth adrodd. Mae IPR diwygiedig bellach ar waith ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adroddiad perfformiad Ansawdd a Diogelwch ar wahân. Mae'r Bwrdd lechyd wedi penderfynu y bydd gwaith canolbwytio'r IPR yn aros gyda'r pwyllgorau yn hytrach na'r Bwrdd.</p>
<p>Papurau Bwrdd a Phwyllgor</p> <p>A3 Gall hyd papurau'r Bwrdd a'r pwyllgor effeithio ar allu aelodau i amsugno'r wybodaeth sy'n cael ei darparu iddynt, gyda rhywfaint o ddyblygu cynnwys. Mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i awduron papurau agenda i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chrynhai'n briodol, a bod y negeseuon allweddol yn cael eu nodi ar y dudalen gyntaf (2021).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi darparu sesiynau ysgrifennu adroddiadau ar gyfer awduron adroddiadau ar draws Cyfarwyddiaethau Corfforaethol a Grwpiau Gwasanaeth, gyda mwy i'w gynnig yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Adroddiad Perfformiad Integredig</p> <p>A4 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn canolbwyntio ar ddisgrifio perfformiad. Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei adroddiadau perfformiad drwy ddarparu mwy o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i wella neu gynnal perfformiad (2021).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Fel y nodir ym mharagraff 40.</p>
<p>Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol</p> <p>A5 Yn ystod y pandemig, nid yw'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd wedi cyfarfod ac ni fu unrhyw gynrychiolaeth o'r fforwm ar y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd lechyd adfer y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a sicrhau bod y Cadeirydd yn mynychu'r Bwrdd yn rheolaidd (2021).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Mae'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd (er nad oedd Awst 2022 yn gwneud cworwm oherwydd gwyliau.)</p>
<p>Tracio Archwilio</p> <p>A6 Er bod trefniadau ar gyfer tracio argymhellion archwilio ar waith, mae diffyg pwyslais arferol ar argymhellion unigol. Fel rhan o'r adroddiad tracio archwilio i'r Pwyllgor Archwilio, dylai'r Bwrdd lechyd gynnwys diweddariad ar gamau gweithredu o'u cymharu â phob argymhelliad unigol (2021).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Fel y nodir ym mharagraff 44.</p>

Rheoli adnoddau ariannol

- 62 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar drefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gyda phwyslais penodol ar elfennau canlynol y sefydliad:
- trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion ariannol allweddol;
 - rheolaethau ariannol;
 - trefniadau ar gyfer adrodd a monitro perfformiad ariannol.
- 63 Canfuom **er i'r Bwrdd lechyd fethu â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau ariannol yn 2021-22 ac y disgwylir iddo fethu rhai ohonynt yn 2022-23, mae ei sefyllfa ariannol wedi gwella. Yn gyffredinol, mae trefniadau ar gyfer rheoli a monitro ariannol yn dda.**

Amcanion ariannol

- 64 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a yw'r Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22, a'i fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23;
 - pa un a oes ganddo gynllun ariannol clir a chadarn ar waith, sy'n cynnwys arbedion realistig a chynaliadwy a chynlluniau gwella costau.
- 65 Canfuom fod **y Bwrdd lechyd wedi methu â chyflawni rhai dyletswyddau ariannol yn 2021-22, ac y bydd hefyd yn methu â chyflawni rhai ohonynt yn 2022-23 er iddo ragweld sefyllfa o fantoli'r gyllideb. Er bod cyflawni arbedion ar y trywydd iawn, mae pwysau costau a chyfalaf dewisol yn her. Mae diffygion ariannol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd yn golygu na fydd y Bwrdd lechyd yn mantoli'r gyllideb dros y cyfnod tair blynedd 2020-23.**
- 66 Methodd y Bwrdd lechyd â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22, gan ddod â'r flwyddyn i ben gyda diffyg ariannol o £24.4 miliwn. Fodd bynnag, roedd hyn yn unol â'r targed ar gyfer diffyg y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Adroddodd y Bwrdd lechyd hefyd am ddiffyg cronus tair blynedd o £65 miliwn ar gyfer y cyfnod treigl tair blynedd 2019-2022. Cyflawnodd y Bwrdd lechyd ei ddyletswydd ariannol terfyn adnodd cyfalaf, gyda thanwariant bach o £243,000.
- 67 Er na fydd y Bwrdd lechyd yn cyflawni'r holl ddyletswyddau ariannol yn 2022-23, mae ar y trywydd iawn i gyflawni sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar gyfer 2022-23. Mae hyn yn dilyn cynnydd yn ei ddyraniad refeniw llinell sylfaen o £24.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gydnabod sefyllfa'r Bwrdd lechyd sydd heb ei ariannu'n ddigonol o'i gymharu â'r fformiwla dyrannu adnoddau diwygiedig. Fodd bynnag, bydd y Bwrdd lechyd yn parhau i roi gwybod am ddiffyg cronus ar gyfer y cyfnod treigl tair blynedd 2020-2023, a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd yn cyrraedd £48.7 miliwn, oherwydd y diffygion yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Ar hyn o

bryd mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn rhagweld gorwariant ar ei derfyn adnoddau cyfalaf o £1.8 miliwn oherwydd gostyngiadau mewn cyllid dewisol, a mwy o bosibilrwydd na fydd ceisiadau newydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai â sgoriau risg uchel, yn gallu derbyn cymorth cyfalaf yn ystod 2022-23.

- 68 Oherwydd y cynnydd yn y dyraniad llinell sylfaen, mae gan y Bwrdd lechyd gynllun ariannol cytbwys sy'n tanategu ei CTCI 2022-2025. Er y rhagwelir sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol, mae'r gallu i gyflawni hyn yn heriol. Ym Mis 7 2022-23, roedd y Bwrdd lechyd yn adrodd diffyg o £3.7 miliwn, yn cynnwys gorwariant o £13.1 miliwn ar draws Grwpiau Gwasanaeth a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol a oedd wedi ei wrthbwysu yn erbyn £9.4 miliwn o gyfleoedd ariannol. Mae Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys yn peri pryder oherwydd pwysau yn y system. O'r herwydd, cytunwyd ar ddiffyg o £9 miliwn yn ystod y flwyddyn gyda'r Grŵp Gwasanaeth, a fydd yn cael ei wrthbwysu yn erbyn cyfleoedd ariannol mewn mannau eraill. Disgwylir i bob Grŵp Gwasanaeth a Chyfarwyddiaeth Gorfforaethol arall fantoli'r gyllideb. Ym Mis 7 2022-23, roedd Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys yn adrodd gorwariant o £10 miliwn. Mae gallu'r Bwrdd lechyd i fantoli'r gyllideb yn dibynnu ar gwtogi tâl amrywiol, cyffuriau, cyflenwadau clinigol, a chostau gofal iechyd parhaus, yn ogystal â chynilon sy'n cael eu cyflawni.
- 69 Mae'r Bwrdd lechyd ar y trywydd iawn i or-gyflawni ei darged arbedion. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gosododd y Bwrdd lechyd darged arbedion gofynnol o £27 miliwn. Erbyn Mis 7 2022-23, roedd y Bwrdd lechyd wedi cynyddu'r targed i £33.6 miliwn, i gynnwys £2 filiwn o arbedion ychwanegol i wrthbwysu'r pwysau o fewn Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys, ynghyd â gofyniad arbedion a gyflwynwyd o £4.6 miliwn o 2021-22. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld y bydd yn cyflawni arbedion o £32.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, gyda £22.7 miliwn yn gylchol. Ym Mis 7, roedd y Bwrdd lechyd wedi cyflawni arbedion o £15.6 miliwn.

Rheolaethau ariannol

- 70 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer clustnodi, awdurdodi, cofnodi a rheoli'r defnydd o'i adnoddau ariannol. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
 - pa un a yw'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â chamau tendro sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
 - pa un a oes trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith;
 - pa un a gyflwynwyd datganiadau ariannol ar amser, ac nad oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chawsant farn archwilio lân.
- 71 Canfuom fod gan y **Bwrdd lechyd drefniadau priodol ar gyfer rheoli ariannol.**

- 72 Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ag offerynnau statudol, ac i adrodd a herio achosion o dorri. Fel y nodwyd ym mharagraff 51, mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar nifer y camau gweithredu tendr unigol, colledion a thaliadau arbennig fel mater o drefn ac adroddir diweddariad ar yr adolygiad parhaus o weithdrefnau rheoli ariannol i bob cyfarfod. Mae gan y Bwrdd lechyd drefniant gwrth-dwyll rhagweithiol; fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 50, gallai craffu ar weithgarwch gwrth-dwyll fod yn fwy tryloyw trwy ddod ag adroddiadau i gyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor Archwilio.
- 73 Mae'r Bwrdd lechyd yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n arwain at gostau, ac mae rheolaethau da ar waith i reoli'r sefyllfa ariannol. Mae llythyrau atebolrwydd wedi'u dosbarthu i bob Grŵp Gwasanaeth a Chyfarwyddiaeth Gorfforaethol, ac mae gwybodaeth ariannol fanwl ar gael i fonitro cynnydd o'i gymharu â chyllidebau a chynlluniau cynilo. Cynhaliwyd cyfarfodydd gwirio a herio yn ystod y flwyddyn gyda phob un o'r Grwpiau Gwasanaeth a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol, pryd cafodd y sefyllfa ariannol ei herio, a phryd rhoddwyd camau gweithredu allweddol ar waith. Pan nad yw perfformiad ariannol ar y trywydd iawn, defnyddir fframwaith rheoli perfformiad y Bwrdd lechyd i uwchgyfeirio meysydd sy'n peri pryder. Mae capasiti ariannol ychwanegol ar gael i gefnogi Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys sydd wedi ei uwchgyfeirio ar hyn o bryd. Ym mis Medi 2022, cynhaliwyd uwchgynhadledd yn cynnwys y Tîm Gweithredol, a Chyfarwyddwyr y Grŵp Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad. Nod yr uwchgynhadledd oedd nodi camau a fyddai'n helpu i gyflawni cyfansymiau rheoli dros y ddau fis canlynol a chyflawni gwelliannau a fyddai'n cefnogi cynllun ariannol cynaliadwy ar gyfer 2023-24 a thu hwnt. Arweiniodd yr uwchgynhadledd at gynnydd yn y targed arbedion fel y crybwyllwyd ym mharagraff 69.
- 74 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 29 Ebrill 2022. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 19 Mai 2022. Ni nododd ein harchwiliad unrhyw gamdatganiadau perthnasol ond nododd rai materion o bwys o ran llywodraethiant a rheolaethau dros dâl cydnabyddiaeth uwch swyddogion. Gwnaethom gyhoeddi barn archwilio ddiamod, ac eithrio'r farn ar reoleidd-dra, y gwnaethom gyhoeddi barn amodol arni⁵.

⁵ Oherwydd bod y Bwrdd lechyd wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod tair blynedd 2019-2022, ac i gael CTCl cymeradwy ar gyfer 2019-2022, gwnaethom gyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra ar gyfer yr holl Fyrddau lechyd oherwydd rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr.

Trefniadau monitro ac adrodd

- 75 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn herio perfformiad ariannol y sefydliad a chraffu arno. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau ariannol, risgiau a chamau lliniaru a gymerir;
 - pa un a yw aelodau'r bwrdd yn herio asesiadau parhaus o'r sefyllfa ariannol yn ddigonol.
- 76 Canfuom fod gan **y Bwrdd lechyd drefniadau cadarn o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol.**
- 77 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i gynhyrchu sawl adroddiad ariannol cynhwysfawr. Cyflwynir adroddiad ariannol manwl ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Mae'r adroddiad yn nodi trosolwg clir o reffeniw, y sefyllfa a ragwelir, perfformiad o'i gymharu â'r arbedion gofynnol, gwariant cyfalaf, costau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch a gomisiynwyd, a thalu anfonebau nad ydynt yn rhan o'r GIG. Darperir gwybodaeth fanwl hefyd am y ffactorau sy'n arwain at gostau allweddol, am amrywiadau ar gyfer pob un o'r Grwpiau Gwasanaeth a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol, ac am y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbed. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun ariannol wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae perfformiad ariannol hefyd wedi'i gynnwys yn yr IPR a gyflwynir hefyd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Fel y soniwyd ym mharagraff 72, cyflwynir adroddiadau hefyd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n nodi cydymffurfiaeth â rheolaethau ariannol. Craffir ar bob adroddiad gan Aelodau Annibynnol. Mae'r sefyllfa ariannol hefyd yn cael ei monitro'n fanwl drwy gyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd Rheoli.

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

- 78 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn lefel uchel ar drefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gyda phwyslais penodol ar y canlynol:
- trefniadau'r sefydliad ar gyfer cefnogi llesiant staff⁶;
 - trefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
 - trefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.
- 79 Darperir manylion am y cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol yn ymwneud ag ystad ac asedau ffisegol y Bwrdd lechyd yn **Arddangosyn 3**.

80 Canfuom fod y **Bwrdd Iechyd yn cefnogi llesiant staff, bod ganddo gynlluniau clir ar gyfer technoleg ddigidol, ac yn weithredol mae'n rheoli ei ystadau a'i asedau ffisegol yn dda. Ond mae cyllid cyfalaf cyfyngedig yn her, nid yw mecanweithiau i ddangos effaith ar waith eto ac mae angen gwella goruchwyliaeth o faterion ystadau ar lefel gorfforaethol.**

Cefnogi llesiant staff

81 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer cefnogi llesiant staff⁷. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:

- pa un a yw prosesau i geisio barn staff am eu hanghenion llesiant yn effeithiol, ac a gymerir camau priodol i ymateb i ganfyddiadau;
- pa un a gaiff camau i gefnogi a gwella llesiant staff eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys y camau a gymerwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19⁸.

82 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar waith i gefnogi a goruchwyllo llesiant staff ond nad yw'n ceisio barn staff yn systematig.**

83 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella llesiant staff. Mae wedi datblygu Strategaeth Llesiant ôl-COVID-19 gyda phwyslais ar ymyrraeth ac atal, ynghyd â Pholisi Straen Staff a Llesiant Emosiynol. Mae ystod eang o wasanaethau llesiant staff ar waith. Ym mis Medi 2021, rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r rhaglen llesiant staff sicrwydd rhesymol. Ymhlith y meysydd i'w gwella roedd ceisio adborth ar effeithiolrwydd ei fentrau. Er bod ystod eang o wasanaethau llesiant staff, nid yw'n glir pa ymgysylltiad â staff a gynhaliwyd cyn i'r rhain gael eu sefydlu i ddarganfod beth oedd ei angen ar staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio data o Arolwg Staff GIG Cymru 2020 ac mae hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ad-hoc gyda staff, fel arfer mewn meysydd sydd â chyfraddau salwch uchel, mewn ymateb i ddefnyddio un o'r gwasanaethau llesiant neu drwy bryderon a godwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gwaith i ddechrau 'y sgwrs fawr' sy'n ymarfer ymgysylltu sydd wedi'i gynllunio i ganfod barn staff ar sut i wneud ansawdd yn fusnes pawb. Fodd bynnag, ni ofynnir i staff yn uniongyrchol sut maen nhw'n teimlo am eu hamgylchedd gwaith.

84 Mae Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r trefniadau hyn. Mae'n derbyn ac yn trafod adroddiadau yn rheolaidd ar lesiant staff, pryderon a godwyd a chwynion. Mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy ddiweddariad y pwyllgor, ac mae llesiant staff hefyd yn nodwedd

⁷ Sylwer: byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau cynllunio gweithlu'r sefydliad, gan ddechrau yn 2023.

⁸ Archwilio Cymru, [Gofalu am y gofaluwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19](#), Hydref 2021

allweddol mewn papurau eraill. Er bod yr IPR a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn darparu gwybodaeth gyfyngedig yn unig am lesiant staff, gan gynnwys ffigurau absenoldeb salwch, gwerthuso perfformiad ac adolygu datblygiad (PADR) a chydymffurfiad hyfforddiant statudol a gorfodol, ystyrir gwybodaeth fanylach ym Mhwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Ym mis Tachwedd 2021, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i'n hadroddiad 'Gofalu am y Gofalwyr?' Mae diweddariad cynhwysfawr hefyd wedi'i roi i Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym mis Hydref 2022, a oedd yn rhoi naratif manwl o'i gymharu â chynnydd pob argymhelliad ond nad oedd yn dod i'r casgliad pa un a oeddent wedi'u cwblhau. Canfuom nad yw'r argymhellion hyn wedi'u gosod yn ffurfiol ar y broses tracio argymhellion archwilio, a dylid gwneud hyn i sicrhau goruchwyliaeth briodol.

Rheoli adnoddau digidol

- 85 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried;
- pa un a oes strategaeth ddigidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau gofal newydd a ffyrdd newydd o weithio;
 - pa un a yw'r Bwrdd yn monitro buddion sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol.
- 86 Canfuom, **er bod trawsnewid digidol yn flaenoriaeth, nad oes gan y Bwrdd lechyd yr adnoddau i weithredu ei uchelgeisiau yn llawn a chipio'r buddion sy'n deillio o atebion digidol.**
- 87 Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i drawsnewid digidol ac mae ganddo weledigaeth ddigidol glir, a nodir yn ei strategaeth ddigidol deng mlynedd. Adlewyrchir y strategaeth yn CTCI 2022-2025, a chaiff ei weithredu ei gefnogi trwy gynllun blynyddol digidol ar gyfer 2022-23. Mae digidol yn cael ei gydnabod fel galluogwr allweddol i adferiad a chynaliadwyedd, ac mae'r Cyfarwyddwr Digidol yn aelod o'r Bwrdd heb hawliau pleidleisio.
- 88 Mae'r ffaith fod cyllid cyfalaf yn gyfyngedig a bod heriau wrth geisio recriwtio gweithwyr proffesiynol digidol profiadol yn effeithio ar gyflawni. Mae'r Tîm Digidol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyllid i nodi ffrydiau ariannu ar gyfer trawsnewid digidol; fodd bynnag, mae'r diffyg cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn cyfyngu ar gynnydd gyda phrosiectau digidol. Er bod y Bwrdd lechyd wedi dyrannu £1.2 miliwn o gyfalaf dewisol i'r maes digidol, dim ond un prosiect digidol sydd wedi'i gefnogi hyd yma. Ym mis 7 2022-23, roedd y Bwrdd lechyd yn adrodd am lithriad o'i gymharu â'i wariant digidol.
- 89 Mae trefniadau clir ar gyfer goruchwyllo. Mae nodau ac amserlenni digidol wedi'u nodi'n glir yn CTCI 2022-2025 a'u monitro drwy'r Bwrdd, a'r Pwyllgor Perfformiad a

Chyllid. Goruchwylir y cynllun blynyddol digidol gan y Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Trafodir risgiau digidol mewn Cyfarfod Risg Ddigidol, gan uwchgyfeirio i'r Cyfarfod Busnes Digidol a'r Bwrdd Rheoli pan fo angen. Ar hyn o bryd mae pedwar risg ddigidol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, sydd bellach yn cael eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Ym mis Mai 2022, canfu adroddiad Archwilio Mewnol ar reoli prosiectau digidol fod buddion digidol a phrosesau gwerthuso'r Bwrdd lechyd yn faes a oedd yn gweithio'n dda.

Rheoli'r ystad ac asedau ffisegol eraill

- 90 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill. Wrth edrych ar hyn, rydym wedi ystyried:
- pa un a oes strategaethau a chynlluniau a gymeradwyir gan y Bwrdd ar waith ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
 - pa un a oes trefniadau priodol ar waith i'r Bwrdd adolygu, herio a chymeradwyo prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol a chraffu arnynt;
 - pa un a oes trefniadau priodol ar waith i'r Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol o gyflwr yr ystad ac asedau ffisegol eraill.
- 91 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd drefniadau gweithredol da, ond nid yw goruchwyllo'r gwaith o reoli ystadau ac asedau ffisegol yn amlwg o fewn strwythur y pwyllgor.**
- 92 Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth rheoli asedau ond ar hyn o bryd mae'n drafftio strategaeth ystadau yn dilyn arolwg diweddar o ystad y Bwrdd lechyd, sydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai 2023. Y costau ôl-groniad cynnal a chadw a nodwyd o'r arolwg diweddar oedd £242 miliwn, wedi'i addasu yn ôl risg i £85 miliwn. Oherwydd y gostyngiad sylweddol mewn cronfeydd cyfalaf, dyrannwyd £33.6 miliwn yn unig i'r Bwrdd lechyd ar gyfer 2022-23. Yn ei gynllun buddsoddi deng mlynedd a gyflwynwyd i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf 2022, nodwyd yr angen am gronfeydd cyfalaf oddeutu £112 miliwn i gynnal parhad busnes mewn cysylltiad â'i ystadau a'i asedau. Yn ogystal â heriau ariannu, mae diffyg cyfleusterau ward i gynnal y gwaith wedi bod yn broblem hirsefydlog o ran mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw.
- 93 Mae trefniadau gweithredol da ar waith ar gyfer goruchwyllo cyflwr yr ystad ac asedau corfforol, ond mae gwelededd ar lefel Bwrdd a phwyllgor yn gyfyngedig. **(Argymhelliad 3)**. Mae gan y Bwrdd lechyd Grŵp Blaenoriaethu Cyfalaf sy'n nodi'n rheolaidd y buddsoddiad sydd ei angen ar sail asesiad risg. Yn ystod 2021-22, llwyddodd y Bwrdd lechyd i fuddsoddi cyllid ychwanegol mewn offer, gan leihau nifer y risgiau uchel ar ei Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â risgiau offer ymhellach. Fodd bynnag, nid yw materion sy'n ymwneud ag ystadau ac asedau ffisegol yn cael eu hadrodd i bwyllgor ar hyn o bryd, ac eithrio rhai materion gweithredol sy'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor lechyd a Diogelwch, a

chynnydd o'i gymharu â gwariant cyfalaf sy'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Cymerir papurau i'r Bwrdd Rheoli neu'n syth i'r Bwrdd. Rhoddodd adolygiad dilynol Archwilio Mewnol o ystadau ym mis Mehefin 2022 sicrwydd rhesymol. Gwelliant ar y sicrwydd cyfyngedig yn yr adolygiad gwreiddiol. Materion sy'n ymwneud â diogelu ariannol, rheoli contractwyr, ôl-groniad cynnal a chadw, diogelwch tân, a diogelwch dŵr.

Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Cynllunio Strategol</p> <p>A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ystadau a chynlluniau asedau i danategu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol a bydd angen iddo sicrhau bod gofynion asedau ac ystadau yn cael eu diffinio'n glir a'u hadlewyrchu yn y cynllun cyfalaf hirdymor (2019).</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Amlinellodd y Bwrdd Iechyd ei ofynion cyfalaf yn y cynllun buddsoddi deng mlynedd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022.</p>

Atodiad 1

Dull archwilio

Mae Arddangosyn 4 yn nodi'r dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer cyflawni ein gwaith asesu strwythuredig yn y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 4: dull archwilio

Elfen o'r dull archwilio	Disgrifiad:
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â'r cyfarfodydd pwyllgor canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Pwyllgor Perfformiad a Chyllid;• Pwyllgor Archwilio;• Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;• Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

Elfen o'r dull archwilio	Disgrifiad:
Dogfennau	<p>Rydym wedi adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylch gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion; • Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch; • Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI; • Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol; • Adroddiadau allweddol yn ymwneud â pherfformiad sefydliadol a chyllid; • Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; • Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol; • Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chyrrff allanol perthnasol eraill.

Elfen o'r dull archwilio	Disgrifiad:
Cyfweliadau	<p data-bbox="633 448 1547 475">Fe wnaethom gyfwrdd â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:</p> <ul data-bbox="633 488 1473 970" style="list-style-type: none"><li data-bbox="633 488 875 515">• Prif Weithredwr;<li data-bbox="633 523 1003 550">• Cadeirydd y Bwrdd Iechyd;<li data-bbox="633 558 1211 585">• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;<li data-bbox="633 593 1055 620">• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio;<li data-bbox="633 628 1160 655">• Pennaeth Cynorthwyol Risg a Sicrwydd;<li data-bbox="633 663 1099 691">• Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad;<li data-bbox="633 699 1227 726">• Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd;<li data-bbox="633 734 1402 761">• Cyfarwyddwr Meddygol a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol;<li data-bbox="633 769 936 796">• Cyfarwyddwr Digidol;<li data-bbox="633 804 1043 831">• Cyfarwyddwr y Gweithlu a DS;<li data-bbox="633 839 1267 866">• Cyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio a Phrofiad Cleifion;<li data-bbox="633 874 987 901">• Cyfarwyddwr Strategaeth;<li data-bbox="633 909 1473 936">• Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

Ymateb sefydliadol i argymhellion yr archwiliad

Arddangosyn 5: Ymateb sefydliadol

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Diweddaru cynllunio strategol</p> <p>A1 Nid yw strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newid ffiniau yn 2019, ei flaenoriaethau strategol newydd, a'r strategaeth iechyd poblogaeth sy'n datblygu ymhlith eraill. Dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <p>a) ailystyried a phenderfynu ar ddyfodol strategaeth 2019, ynghylch a oes angen diweddaru neu ddisodli hon:</p> <p>b) sicrhau bod map clir o strategaethau'r Bwrdd Iechyd presennol i sicrhau eglurder ac aliniad a monitro a chraffu effeithiol.</p>	<p>a) Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r strategaeth sefydliadol ar ôl cwblhau'r Sgwrs Fawr, rhaglen newid diwylliannol, i ystyried dull Bae Abertawe.</p> <p>b) Map o strategaethau'r Bwrdd Iechyd presennol i'w gwblhau gan nodi trefniadau monitro adroddiadau.</p>	<p>Mawrth 2024</p> <p>Mehefin 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Strategaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Strategaeth</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Diweddarau cynllunio strategol</p> <p>A2 Gallai adrodd ar gynnydd o'i gymharu â'r cynlluniau clinigol a chorfforaethol sy'n cefnogi'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol gael ei wella ar bob lefel. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r broses o adrodd i'r Bwrdd Rheoli er mwyn gallu tracio cynnydd ar draws pob cynllun yn rhwydd.</p>	<p>Mae'r cynllun gwasanaethau clinigol bellach wedi'i wreiddio'n gadarn yn y CTCL a chaiff ei weithredu, ei fonitro a'i adrodd trwy adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd.</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p>	<p>Cyfarwyddwr Strategaeth</p>
<p>Gwella systemau sicrwydd ymhellach</p> <p>A3 Er bod y FfSB wedi gwella, mae cyfleoedd yn bodoli i'w ddatblygu a'i wella ymhellach. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly, sicrhau bod prif risgiau'r FfSB yn adlewyrchu'r strategaeth hirdymor, yn ogystal â sicrhau bod rheolaethau, sicrwydd a mesurau lliniaru yn gynhwysfawr ac yn gadarn. Dylai hyn gynnwys sicrwydd yn ymwneud ag ystadau.</p>	<p>Cynhelir gweithdai yn Ch1 i gryfhau'r FfSB ymhellach a'i alinio â'r CTCL. Yna bydd yr FfSB diwygiedig yn cael ei adrodd i'r Bwrdd i'w ystyried.</p>	<p>Gorffennaf 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwella systemau sicrwydd ymhellach</p> <p>A4 Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am risg sy'n gysylltiedig â chyffuriau a reolir. Gan fod y Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gael sicrwydd ar brosesau rheoli risg y Bwrdd lechyd, ni ddylai fod yn gyfrifol am unrhyw risgiau. Dylai'r Bwrdd lechyd ail-leoli'r risg hon i bwyllgor gwahanol a sicrhau nad oes unrhyw risgiau pellach yn cael eu dyrannu i'r Pwyllgor Archwilio.</p>	<p>Mae'r Polisi Rheoli Risg yn cynnwys y newid i swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio o ran goruchwyllo'r broses yn unig a bydd holl gofnodion Cofrestr Risg y Bwrdd lechyd yn cael eu dyrannu i bwyllgorau'r Bwrdd a bydd hyn yn eithrio'r Pwyllgor Archwilio. Bydd y Polisi yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd i'w gymeradwyo.</p>	<p>Mawrth 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p>
<p>Gwella systemau sicrwydd ymhellach</p> <p>A5 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig wedi gwella ond mae cyfleoedd yn bodoli i'w wella ymhellach. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio atebion digidol i gyflwyno'r adroddiad yn ogystal â chynnwys data cymharol ar gyfer cyrff eraill y GIG ledled Cymru.</p>	<p>Mae dangosfwrdd COVID wedi'i ddefnyddio'n fyw ac mae dangosfyrddau ychwanegol yn cael eu datblygu i gefnogi hyn. Rhaid taro cydbwysedd rhwng adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer y cofnod a chyflwyno dangosfwrdd a gofnodwyd mewn cofnodion.</p> <p>Lansio fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig yn 2023-24 a fydd yn defnyddio dangosfyrddau byw mewn cyfarfodydd perfformiad grŵp gwasanaeth.</p>	<p>Ar Waith</p> <p>Mai 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad</p> <p>Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwella systemau sicrwydd ymhellach</p> <p>A6 Mae'r broses ar gyfer gwneud newidiadau i amserlenni ar gyfer cwblhau argymhellion archwilio yn aneglur. Hefyd, nid yw'r argymhellion a wneir gan sefydliadau gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gyflawni yn cael eu tracio ac na chreffir arnynt gan y pwyllgor priodol ychwaith, ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y traciwr argymhellion archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly:</p> <p>a) sefydlu proses glir ar gyfer adolygu a chymeradwyo newidiadau a wnaed i ddyddiadau gweithredu argymhellion archwilio;</p> <p>b) sicrhau monitro a chraffu priodol ar gynnydd wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n ymwneud ag argymhellion gan gyrff arolygu ac adolygu allanol eraill.</p>	<p>a) Mae'r broses wedi'i diwygio ac nid yw dyddiadau cau yn cael eu newid ar ôl eu gosod. Mae'r Arweinydd Gweithredol, pryd na chaiff camau gweithredu eu cwblhau erbyn y dyddiad cau, yn darparu dyddiad dangosol erbyn pryd y byddant yn disgwyl cau'r camau gweithredu yn eu diweddariadau.</p> <p>b) Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio system AMAT i fonitro'r holl gamau archwilio/arolygu a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio.</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Hydref 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p> <p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor</p> <p>A7 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder busnes y Bwrdd a'r pwyllgor ymhellach. Dylai'r Bwrdd lechyd, felly:</p> <p>a) sicrhau bod rhywfaint o wybodaeth gwrth-dwyll, os nad y cwbl, yn cael ei hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio cyhoeddus.</p> <p>b) sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar y wefan gyhoeddus, yn ogystal â strategaethau allweddol yn gyfredol ac yn hygyrch. Wrth wneud hynny, dylid dileu dogfennau hŷn er mwyn osgoi dryswch.</p> <p>c) cyhoeddi'r Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion a Lletygarwch fel dogfen benodol ar y wefan gyhoeddus.</p>	<p>a) Bydd adroddiadau gwrth-dwyll nawr yn cael eu cynnwys yn agenda gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio ac eithrio unrhyw wybodaeth sensitif am achosion.</p> <p>b) Dechreuodd y Cyfarwyddwr Mewnwelediad, Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yn ei swydd ar 1 Mawrth 2023. Bydd hyn yn cael ei weithredu fel rhan o raglen waith i wella rhyngwyd y Bwrdd lechyd. Mae gwaith cwmpasu ar y gweill ar hyn o bryd a fydd yn nodi blaenoriaethau ac adnoddau sydd eu hangen.</p> <p>c) Gweithdrefn Weithredu Safonol i'w datblygu i gefnogi'r gofrestr 'fyw' ar y wefan.</p> <p>d) Mae'r rhain bellach yn dechrau cael eu cyhoeddi ar y wefan, gan ddechrau gyda Phwyllgorau'r Bwrdd.</p> <p>e) Adroddiad diwygiedig i'w rannu gyda'r Bwrdd o fis Mai 2023.</p>	<p>Mawrth 2023</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>Gorffennaf 2023</p> <p>Medi 2023</p> <p>Mai 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Cyfarwyddwr Mewnwelediad, Cyfathrebu ac Ymgysylltu</p> <p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p> <p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>d) sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau wedi'u cadarnhau yn cael eu lanlwytho i'r wefan gyhoeddus mewn modd amserol.</p> <p>e) sicrhau bod cofnodi gweithredoedd y Cadeirydd yn ffurfiol yn cynnwys mwy o fanylion am gostau neu oblygiadau ehangach o ran adnoddau, yn enwedig os yw'r weithred yn berthnasol ei natur.</p>			
<p>Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor</p> <p>A8 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgor, yn ogystal ag i sicrhau effaith mwyaf yr FfSB. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <p>a) defnyddio'r FfSB diwygiedig i lywio dyluniad strwythur y pwyllgor i gyd-fynd â risgiau strategol y sefydliad;</p>	<p>a) Defnyddiwyd yr FfSB i adolygu trefniant pwyllgor y Bwrdd a bydd y newidiadau hyn yn cael eu hystyried gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 ac yn amodol ar gymeradwyaeth byddant yn dod i rym o fis Ebrill 2023.</p>	<p>Ebrill 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p>

Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyrifol
<p>b) cryfhau'r cyflwyniad a'r wybodaeth a gynhwysir gyda'r Adroddiad Ansawdd a Diogelwch a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;</p> <p>c) cyflwyno rhaglen ffurfiol o adolygiadau effeithiolrwydd pwyllgor.</p>	<p>b) Mae'r adroddiad Ansawdd a Diogelwch i'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi'i ddiwygio ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio.</p> <p>c) Bydd adolygiad effeithiolrwydd y pwyllgor yn cael ei gwblhau bob chwe mis.</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Medi a Mawrth 2023-24</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrso a Phrofiad Cleifion</p> <p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</p>
<p>Recriwtio i swyddi allweddol</p> <p>A9 Mae yna gryn wendid o hyd yn yr uwch dîm arwain yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd geisio penodi nifer sylweddol i swyddi o fewn triwriaeth y Grŵp Gwasanaeth ac ar y lefel oddi tanodd.</p>	<p>Dewiswyd arbenigwyr i ddod o hyd i ymgeiswyr addas er mwyn recriwtio'n helaeth i'r swyddogaeth hon a bydd yr ymgyrch yn dechrau ym mis Mawrth 2023. Gohiriwyd cynlluniau i recriwtio i'r swyddogaeth hon oherwydd ymddiswyddiad y Prif Swyddog Gweithredu. Ar ôl i'r Prif Swyddog Gweithredu newydd gael ei benodi yn dilyn y cyfweiliad a drefnwyd ar gyfer 29 Mawrth 2023, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu cymryd rhan wrth benodi Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth Treforys. Bydd swyddi cysylltiedig eraill yn cael eu llenwi wedi hynny.</p>	<p>Mehefin 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</p>



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.